

PRESENNOL:

Cynghorwyr: Peter Garlick, Math Williams, Gwyneth Thomas, Erddyn Davies, Huw Orwig, Dafydd Iwan, Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts

Cadeirio: Geraint Strello

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Emyr Williams

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION MIS GORFFENNAF A MEDI 2019

Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf 2019 Cynnig: Mirain Llwyd Owen
Eilio: Dafydd Iwan

Cadarnhawyd cofnodion mis Medi 2019 Cynnig: Peter Garlick
Eilio: Erddyn Davies

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Adroddodd y Cynghorydd Peter Garlick fod ffordd Castellmai i'w hailwynebu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r llecyn wrth yr hen le ailgylchu ar y ffordd allan o Fontnewydd tuag at Gaeathro hefyd i'w ailwynebu yn fuan.

Ar Hydref 30ain, bydd Arweinydd ac Is-arweinydd Cyngor Gwynedd yn dod i ymweld â'r gymuned am 10:00. Awgrymodd y Cynghorydd Dafydd

Iwan fod hyn yn gyfle da i ofyn am fwriadau Cyngor Gwynedd am newid yn y trefniadau parcio a chynllun yr A487 ym Montnewydd, unwaith i'r ffordd osgoi gael ei chwblhau.

Atgoffodd y Cynghorydd Peter Garlick fod Llyr Rees wedi ei benodi'n Bennaeth newydd ar Ysgol Bontnewydd ers dechrau tymor yr Hydref, a byddai'n ei whaodd i gyfarfod o'r cyngor cymuned yn fuan.

Bydd y ffordd rhwng Caernarfon a Chaeathro yn cau er mwyn hyrwyddo gwaith ar y ffordd osgoi. Mae pryder y bydd hyn yn arwain at fwy o draffig drwy Fontnewydd a lôn Rhos Bach.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a Jones Bros, er mwyn gweld pa drefniadau sydd ganddynt i leihau unrhyw anghyfleustra y gall hyn ei achosi, e.e. drwy osod arwyddion priodol i rwystro traffig rhag mynd ar hyd lôn Rhos Bach, a cherbydau trwm rhag teithio drwy Fontnewydd yn ddi-anghenraid.

Mae cynllun gan Gyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Priffyrdd i wneud gwaith cynnal a chadw ffordd ym Montnewydd dros y mis neu ddau nesaf.

4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

Cafwyd crynodeb o sefyllfa ariannol Y Ganolfan.

Arian yn y banc 2/10/19, £3000. Bydd angen gwario ar oleuadau ac adnewyddu'r to fflat yn y dyfodol agos.

Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau wnaethpwyd ers dechrau Medi:

1. Gwydr newydd yn ffenest storfa sy'n edrych tros iard Meithrin - wedi ei osod - £144, talwyd.
2. Adnewyddu'r to fflat sy'n gollwng dŵr i storfa'r gofalwr - manion angen eu gorffen.
3. Drysau tân y cyntedd angen eu hail-hongian i gau'r bwlch ac atal gwynt rhag chwythu drwyddynt; ac i osod clo newydd - wedi trefnu saer coed at y 12fed Hydref.
4. Adnewyddu'r ystafell snwcer. Mae'r pensaer yn aros ymateb gan Safonau Adeiladu ynglyn â drysau tân cyn medru gorffen y cynlluniau. Bydd angen manylion gwaith manwl ganddo cyn gofyn i adeiladwyr ddarparu amcanbrisau am y gwaith. Mae cyfarfod

pwyllgor Y Ganolfan wedi ei drefnu (9 Hydref) i hel cefnogaeth gan y defnyddwyr ar gyfer y cais grant.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

5.1 Clwb Ieuenctid Gwynedd

Cafwyd amserlen y clwb ieuenctid tan hanner tymor. Bydd y sesiynau yn cael eu cynnal yng Nghaernarfon, Talsarn a Waunfawr.

Cytunwyd fod yr hyn sydd gan Gwynedd i'w gynnig yn dderbyniol, a gofynnwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd yn chwarterol, er mwyn gweld niferoedd y rhai sy'n mynychu, a thrafod y mater ymhellach bryd hynny.

5.2 Carthffosiaeth yn Afon Gwyrfa

Cafwyd esboniad manwl gan Ddŵr Cymru am eu gorlifoedd carthion cyfun ym Montnewydd, sy'n golygu fod carthion yn cael eu gwagio i afon Gwyrfa ar adegau.

Mae Bontnewydd, fel cannoedd o ardaloedd eraill ar draws Cymru yn ardal gorlif carthion cyfun. Mae'r rhan fwyaf o garthffosydd Dŵr Cymru yn "garthffosydd cyfun". Fel arfer, un bibell yw hon sy'n cario dŵr gwastraff o gartrefi a dŵr wyneb o'r gwterydd, draeniau a ffyrdd.

Mae carthffosydd cyfun yn casglu dwr glaw sy'n rhedeg o wteri, draeniau a ffyrdd, yn ogystal â charthion. Mae hyn yn ddŵr gwastraff ac mae'n cael ei gludo i weithfeydd trin lle caiff ei lanhau, ei drin, a'i ddychwelyd yn ddiogel i gyrsiau dŵr ac i'r môr.

Yn ystod stormydd trwm, mae mwy o ddŵr yn cyrraedd y pibellau hyn nag y gallant ymdopi ag ef, ac felly, er mwyn amddiffyn cartrefi a chwsmeriaid rhag orlifiadau o garthffosiaeth mae system gollwng y CSO's yn hanfodol. Heb y system hyn, byddai systemau carthffosiaeth yn gorlewni a byddai dŵr yn cynnwys carthion a dŵr glaw o doiledau a draeniau yn gorlifo i adeiladau, strydoedd, ffyrdd a llecynnau agored.

Fel arfer, dim ond ar ôl glaw trwm y mae hyn yn digwydd, ac felly mae unrhyw ddŵr a gaiff ei ollwng i afonydd neu'r môr yn annhebygol o achosi difrod amgylcheddol.

Cytunwyd fod angen i hyn ddigwydd er mwyn diogelu tai, ac fe dderbyniwyd esboniad Dŵr Cymru.

5.3 Cyfethol Aelod

Cafwyd un ymgeisydd ar gyfer y sedd wag, sef Gruffydd Williams o Ffrwd Cae Du. Cafodd ei ethol yn unfrydol, a'i gyfarfod cyntaf fydd Tachwedd 2019.

5.4 Rheoliadau Gwrychoedd 1997

Cafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru ar y mater yma.

Mae nhw o'r farn gan mai cynllun priffyrdd yw'r ffordd osgoi, nid yw'n ddarostyngedig i Reoliadau Gwrychoedd 1997 yn yr un modd ag y byddai datblygiad o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref

Cytunwyd y dylid diolch i'r aelod o'r cyhoedd wnaeth ysgrifennu parthed y mater yn y lle cyntaf, ond penderfynwyd y dylai'r unigolyn gysylltu â Llywodraeth Cymru ei hun os oedd yn anghytuno efo dehongliad Llywodraeth Cymru o'r mater.

5.5 Goryrru yn Llanfaglan

Mae Siwrne Saff wedi cytuno i ymweld â Llanfaglan yn amlach.

Mae adran priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi cytuno i baentio'r arwydd "Araf" sydd wedi gwisgo. Yn ogystal, mae'r gwaith o osod sribedi coch i arafu traffig sy'n mynd drwy Lanfaglan wedi ei gymeradwyo, ond does dim amserlen bendant ar gyfer gwneud y gwaith. Gofynnwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd am ddyddiad tebygol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno y byddant yn ymgynghori efo trigolion lleol cyn gosod y sribedi coch, er mwyn sicrhau na fydd sŵn yn achosi problem.

5.6 Diogelwch Ffordd ger Fron Goch

Mynegwyd pryder ar ran trigolion y gymuned, parthed cerddwyr yn cerdded o Lôn Eifion i Fron Goch, a diffyg gwelediad wrth adael y maes parcio i mewn i Lôn Pant.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Cynghorydd Cai Larsen fel y cynghorydd lleol, i ofyn am ei farn a'i gydweithrediad ar y mater.

Disgwylir ymateb.

5.7 Cysgodfanau Bws Newydd Bontnewydd

Bydd Cyngor Gwynedd yn gosod dwy gysgodfan newydd efo'r brand Traws Cymru yng nghanol pentref Bontnewydd dros yr wythnosau nesaf.

Mae'r cysgodfanau yn fwy na'r rhai presennol, ac mae'n bosibl y bydd angen gwneud gwaith i addasu'r safleoedd bysiau presennol er mwyn medru eu gosod.

Cyfrifoldeb y cyngor cymuned fydd eu cynnal a'u cadw a'u hyswiro, fel sy'n digwydd efo'r cysgodfanau presennol.

5.8 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Bu'r Cynghorydd Peter Garlick mewn cysylltiad â chwmni Jones Bros. Maent yn ystyried rhoi cyfraniadau ariannol i gymdeithasau a mudiadau lleol, ond does ganddynt ddim pwll di-waelod o arian, a does dim fframwaith o ran gwneud ceisiadau.

Bydd y Cynghorydd Peter Garlick yn trafod y mater ymhellach efo cwmni Jones Bros..

6.MATERION ARIANNOL

6.1 Cyflog a Chostau Clerc Medi 2019

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £279.00

Cyfanswm Net £232.20

6.2 Anfoneb Wyn Williams rhif 1910, Tachwedd 2018 i Mehefin 2019 glanhau cysgodfanau – cysoni'r taliad ac ad-dalu'r Clerc £213.00. Cyfanswm yr anfoneb £405.00. Cymeradwywyd talu £192 yng nghyfarfod Medi 2019, talwyd y gweddill o £213.00 gan y Clerc

6.3 Derbyn taliad rhent Parc y Plwyf 2019/20 £25.00

6.4 Balans yn y banc 3 Hydref 2019 £21,984.51

6.5 Monitro'r gyllideb

Cytunwyd fod y sefyllfa ariannol yn gymharol iach, ac y dylid gwario hyd at £2,000 ar gyfer sefydlu gwefan, a hyd at £3,000 ar faterion cymunedol eraill, ac y dylai aelodau gynnig syniadau erbyn y cyfarfod nesaf.

7. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

8. GOHEBIAETH

- Cynllun EFE
- Digwyddiadau Age Cymru

Derbyniwyd er gwybodaeth

9.MATERION ERAILL

9.1 Pwyllgor Un Llais Cymru Arfon Dwyfor 25 Medi 2019

Mynychodd y Clerc bwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru ym Mwillheli. Y prif beth a drafodwyd oedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ddaw yn yr Hydref ar ddeddfwriaeth arfaethedig yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar gynghorau cymuned. Ar hyn o bryd fe argymhellir:-

- rhoi dyletswydd ar gynghorau cymuned i gyhoeddi adroddiad blynyddol
- rhoi dyletswydd ar gynghorwyr cynghorau cymuned i fynychu cyrsiau hyfforddiant

9.2 Gwefan

Cafwyd trafodaeth ar sefydlu gwefan ar gyfer y cyngor cymuned. Cytunwyd fod yn rhaid i'r wefan gynnwys y manylion angenrheidiol, ond ei chadw'n weddol syml.

Bwriedir cael prisiau gan amrywiol ddarparwyr. Bydd y gost yn uwch yn ystod y flwyddyn gyntaf, oherwydd yr angen i sefydlu'r wefan.

Bydd y Clerc yn mynychu cwrs Un Llais Cymru ddechrau Hydref ar sefydlu gwefannau ac ymgysylltu cymunedol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – Tachwedd 7 2019 am 7 yr hwyr yn Y
Ganolfan, Bontnewydd**